@chwaraeonrhct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Annog plant i wneud rhagor o ymarfer corff – Clystyrau Penodol

Bob blwyddyn rydyn ni'n dewis ysgolion penodol, ac rydyn ni'n darparu cymorth, prosiectau, a chyllid ychwanegol i annog pobl ifainc i wneud rhagor o ymarfer corff. Caiff ysgolion eu dewis ar sail ffactorau megis amddifadedd ac ymgysylltiad â'n rhaglenni. Eleni fe wnaethon ni addasu ein darpariaeth o ysgolion penodol a phenderfynu targedu clystyrau penodol, a oedd am y tro cyntaf yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedden ni o'r farn y byddai'r dull yma'n meithrin perthnasoedd rhwng yr ysgolion a rhyngom ni, a fyddai'n gwella'r cyfleoedd i blant a phobl ifainc ddod yn heini.

Cafodd clystyrau Porth, Aberpennar, a Thonyrefail eu dewis. Mae pob un o'r rhain mewn ardaloedd o amddifadedd uchel. Fe wnaethon ni deilwra ein darpariaeth i bob clwstwr a chynnig cymorth ymarferol i'w helpu gyda chyllid, arweinyddiaeth a hyfforddiant. Gweithion ni gyda'r tri chlwstwr i ddatblygu achlysuron cyfranogiad torfol, lle'r oedd arweinwyr ysgolion uwchradd yn magu hyder wrth gyflwyno i gyfoedion a phlant ysgolion cynradd lleol. Fe wnaethon ni fentora a hyfforddi'r arweinwyr a'u helpu i gynllunio a threfnu'r achlysuron. Yn yr achlysuron hyn, fe wnaethon ni feithrin trafodaethau rhwng staff ysgolion cynradd ac uwchradd gyda'r nod o gydweithio ar ragor o brosiectau wrth symud ymlaen. Symudodd pob clwstwr i'r cam nesaf gan ganolbwyntio ar bethau gwahanol, ac fe wnaethon ni eu cefnogi trwy hyn.

Nododd clwstwr Aberpennar y byddai'n elwa ar hyfforddiant staff, felly fe gyflwynon ni raglen hyfforddi bwrpasol i'w helpu i gynyddu cyfranogiad. Mae'r holl staff wedi dychwelyd i'r ysgol ac yn rhoi'r hyfforddiant ar waith ar yr iard. Defnyddiodd clwstwr Porth ei arweinwyr ifainc i gefnogi clybiau ar ôl ysgol mewn ysgolion cynradd lleol. Roedd yr arweinwyr ifainc yn cefnogi staff i gyflwyno sesiynau, yn ennill profiad gwerthfawr, yn datblygu sgiliau ac yn magu hyder.

Cryfhaodd y prosiect bartneriaethau mewn ysgolion nad oedd wedi ymgysylltu â ni yn flaenorol. Mae cyflwyno dull clwstwr wedi cefnogi'r broses bontio ar gyfer disgyblion sy'n symud o flwyddyn 6 i'r ysgol uwchradd ac wedi cryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion.

> *"Rydyn ni eisiau diolch i Richard am ei gymorth. Rydyn ni'n elwa'n fawr ar yr hyfforddiant a roddodd i'n staff a'r cymorth y mae wedi'i gynnig i'n disgyblion."* Ysgol Gynradd
>
> *"Roedden ni'n hapus iawn i gael ein dewis i fod yn rhan o glystyrau penodol Chwaraeon RhCT. Roedden ni am feithrin perthynas rhyngom ni a'n hysgolion cynradd lleol ac rydyn ni o'r farn ein bod ni wedi cymryd camau mawr tuag at hyn. Mae Chwaraeon RhCT wedi bod yn gaffaeliad mawr i ni ac i'n harweinwyr, ac, yn y flwyddyn nesaf, hoffen ni ehangu a gwella ar yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni eleni."* Ysgol Uwchradd

**22** o ysgolion wedi'u targedu

**90%** o'r ysgolion wedi ymgysylltu

**40%** o'r ysgolion wedi manteisio ar hyfforddiant staff

**40%** o'r ysgolion wedi manteisio ar raglen arweinyddiaeth

**52** o arweinwyr wedi'u hyfforddi o ganlyniad

**60** o aelodau staff wedi'u hyfforddi o ganlyniad

**81%** o'r ysgolion wedi manteisio ar gyllid

**17** prosiect newydd o ganlyniad

RHONDDA CYNON TAF

52728-15